# Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Blant

Mae'r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

## Be ydi Grŵp Craidd?

Mewn cyfarfod a elwir yn Cynhadledd Amddiffyn Plant, penderfynwyd nad wyt yn ddiogel a rwan bydd cyfarfod llai o'r enw Grŵp Craidd yn cyfarfod i weithio ar nodau i cefnogi ti a dy deulu i wneud newidiadau i cadw ti'n ddiogel rhag niwed sylweddol.

## Pwy sydd yn y Grŵp Craidd?

Pobl fel y rhain:-

- Dy deulu
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Ymwelydd Iechyd
- Athro

Mi allant hefyd dy helpu os wyt ti eisiau gwybod mwy neu dim yn deall rhywbeth. Dim ond gofyn ti angen ei wneud.

## Be mae'r Grŵp Craidd yn ei wneud?

Mae'r Grŵp Craidd yn llunio dy Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth ac yn sicrhau bod modd cyflawni pob dim sydd wedi'i nodi a dy fod wedi cymeryd rhan yn llawn. Fel rhan o'r cynllun hwn mae nhw wedi ysgrifennu Camau i Newid ar gyfer pob un o'r Nodau Canlyniad a enwyd yn dy Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Maent yn sicrhau bod newidiadau'n digwydd i wneud pethau'n well i ti.

# Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Blant

## Be sydd angen i mi ei wneud?

- Fedri di fynd i’r cyfarfodydd, os wyt eisiau.
- Os wyt yn mynd i’r cyfarfodydd, byddwn yn gwrando arnat. Mae’r hyn sydd gan ti i’w ddweud yn bwysig.
- Os wyt eisiau, fedri di nodi ar bapur yr hyn yr wyt ti eisiau ei ddweud yn y cyfarfod a gofyn i rywun ei ddarllen ar dy rhan.
- Fedri di holi dy Gweithiwr Cymdeithasol am eiriolwr. Dyma rhywyn sy’n gallu mynd gyda ti i gyfarfodydd i dy helpu i ddweud yr hyn yr wyt eisiau, neu mynd i’w ddweud ar dy rhan.

## Pa mor aml mae’r Grŵp Craidd yn cyfarfod?

O fewn 10 diwrnod i’r gynhadledd ac yna bob rhyw 6 wythnos.

Os hoffet gofyn am unrhyw beth arall, gelli siarad gyda dy Weithiwr Cymdeithasol.

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn fformatau eraill ar gais.